Llywodraeth Cymru
Welsh Government




## I'w gwblhau gn y darparwr

Gwnaed y cytundeb hwn ar ______________________ (dyddiad cychwyn y Brentisiaeth)

rhwng ______________________ (cynrhychiolydd y cyflogwr)

o ______________________ (enw'r cwmni)

yn ______________________ (cyfeiriad y cwmni)

a ______________________ (y prentis a rhif Yswiriant Gwladol)

______________________ (darparwr y brentisiaeth)

______________________ (y darparwr sydd â chontract) i astudio

______________________ (nodwch sgil, masnach neu alwedigaeth y Brentisiaeth) yn dilyn

______________________ Fframwaith Prentisiaeth* ar y lefel gyfredol ______ , gyda'r disgwyl i symud ymlaen i lefel ______ . Y dyddiad cwblhau terfynol a ddisgwylir yw ______________ . Tâl yr awr ar ddechrau'r Brentisiaeth yw ________ .

*Os y nod yw cyflawni fframwaith ar lefel uwch yn y pen draw, nodwch y lefel y dechreuodd y dysgwr arni, e.e. lefel 2 ac yna'r lefel derfynol y mae disgwyl iddynt symud ymlaen iddi, e.g. Lefel 3, 4 neu uwch (Bydd y Cytundeb hwn yn berthnasol i'r dysgwyr ar gyfer pob lefel o ddysgu ac nid oes angen llenwi Cytundeb arall pan fydd yn symud yn ei flaen.

## Mae pob carfan yn cytuno

Os terfynir y cytundeb hwn oherwydd colli gwaith, neu os am unrhyw reswm nad yw'r cyflogwr yn gallu bodloni telerau'r cytundeb hwn, bydd pob parti yn gwneud pob ymdrech, gan ddefnyddio rhwydweithiau a chontractau lleol, i sicrhau bod y prentis yn cael y cyfle i drosglwyddo i gyflogwr arall a fydd yn gallu cynnig dilyniant i'r prentis, er mwyn iddo gwblhau ei Gynllun Dysgu Unigol.

Arwyddwyd gan/neu ar ran y cyflogwr, y prentis a'r darparwr, ar ddechrau'r rhaglen ddysgu.

Y cyflogwr: ______________________ Dyddiad ____________

Y prentis: ______________________ Dyddiad ____________

Y darparwr: ______________________ Dyddiad ____________

Y darparwr: ______________________ Dyddiad ____________
(os yw'n wahanol i ddarparwr y brentisiaeth)

Mae'r Cytundeb Dysgu Prentisiaeth yn cydmffurfio â Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Adran 32). Contract gwasaneth ydyw, nid contract cyflogaeth.

## Mae'r Darparwr/wyr yn cytuno i:

- Sicrhau bod pob agwedd ar y rhaglen yn cael ei darparu yn unol â gofynion y fframwaith, safonau ansawdd Estyn a'r holl ofynion ansawdd a chyllidol Llywodraeth Cymru sy'n amodol. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau a phrofiad i rheini sy'n darparu'r dysgu;
- Sicrhau y rhoddir sylw i'r broses o integreiddio holl agweddau'r rhaglen (cymwysterau NVQ/FfCCh yn seiliedig ar Gymhwysedd a Gwybodaeth, Sgiliau Hanfodol Cymru, a gofynion ychwanegol) i sicrhau bod profiad y prentis yn un gwerthfawr sy'n ei ddatblygu;
- Cynnig cefnogaeth, arweiniad a chyngor i'r cyflogwr/prentis a hysbysu'r ddau barti o unrhyw wybodaeth berthnasol a'u cynnwys yn y broses adolyg;
- Sicrhau bod y cyflogwr yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb i gynnal gwiriadau o hawl y prentis i weithio a chadw tystiolaeth o'r gwiriad hwnnw, ac yn gweithredu un unol â hynny;
- Sicrhau bod y prentis yn gymwys i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru, a chadarnhau bod y dystiolaeth o gymhwysedd y dysgwr wedi'i wirio cyn/ar ddechrau'r rhaglen;
- Sicrhau bod gan bob prentis Gynllun Dysgu Unigol, na fydd newid(iadau) i'r Cynllun hwnnw ac na throsglwyddir unrhyw brentis i ddarparwr arall heb fod y prentis yn cytuno yn y lle cyntaf.

## Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno i:

- Fonitro ansawdd perfformiad y darparwr sydd wedi derbyn contract yn uniongyrchol;
- Rhoi cyllid i'r darparwr sydd wedi derbyn contract yn uniongyrchol tuag at gostau cyffredinol a chostau darparu'r fframwaith, fel y bo'n briodol;
- Sicrhau nad oes unrhyw gyfleoedd na rhaglenni dysgu yn camwahaniaethu mewn perthynas â rhyw, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran nac anabledd (lle nad yw'r anabledd yn rhwystr i'r gweithgarwch hyfforddi);
- Sicrhau bod y cyflogwr yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb i gynnal gwiriadau o hawl y prentis i weithio a chadw tystiolaeth o'r gwiriad hwnnw, ac yn gweithredu un unol â hynny;
- Sicrhau bod y prentis yn gymwys i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru, a chadarnhau bod y dystiolaeth o gymhwysedd y dysgwr wedi'i wirio cyn/ar ddechrau'r rhaglen;
- Hybu prentisiaethau ledled Cymru.

## Mae'r Prentis cytuno i:

- Ymroi i fwrw ymlaen â'i ddysgu a'i asesiadau, trwy fynychu cyrsiau a digwyddiadau dysgu eraill yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, ymbaratoi ar gyfer asesia a chymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio ac adolygu ei raglen;
- Cymryd cyfrifoldeb am ei ddysgu a'i ddatblygiad ef ei hunan;
- Ymddwyn mewn modd ystyriol a chyfrifol, gan roi dyledus barch i faterion cyfle cyfartal, mewn perthynas ag ef ei hunan ac eraill, ac i'w Iechyd a Diogelwch ef ei hunan ac eraill yn ei amgylchedd gwaith a dysgu;
- Gweithio i'r cyflogwr hyd eithaf ei allu ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r cyflogwr;
- Awdurdodi ei ddarparwr i wneud cais am ei dystysgrif cwblhau prentisiaeth ar ei ran;
- Dylai'r prentis godi unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'i ddysgu, yn y lle cyntaf, gyda darparwr y brentisiaeth. Os nad yw'n cael ateb boddhaol dylai fynegi'i bryderon wedyn wrth y darparwr sydd wedi derbyn y contract gan Lywodraeth Cymru. Mewn amgylchiadau anghyffredin lle nad yw hyn yn datrys y broblem, dylid cysylltu â Llywodraeth Cymru.

## Mae'r Cyflogwr yn cytuno i:

- Cyflogi'r prentis a thalu o leiaf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Anogir cyflogwyr i dalu'r Cyflog Byw 'Go Iawn' neu fwy. Nid yw tips, cildyrnau, taliadau gwasanaeth ac ati'n cael eu cynnwys fel rhan o'r isafswm cyflog;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith mewnfudo'r DU mewn perthynas â hawl prentis i fyw a gweithio yn y DU, a chadw cofnodion o'r gwiriadau;
- Talu cyflog mewn perthynas ag elfennau hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith y rhaglen ddysgu;
- Sicrhau bod gan y prentis gontract cyflogaeth;
- Ymgymryd â chyfrifoldebau cyfreithiol a chytundebol o ran Iechyd a Diogelwch y prentis;
- Sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer da;
- Sicrhau bod digon o amser ac adnoddau ar gael i'r prentis ddiwallu ei anghenion dysgu ac asesu, ganwys sicrhau bod y prentis yn mynychu gwaith a hyfforddiant am o leiaf un awr ar bymtheg yr wythnos, oni bai fod absenoldeb wedi ei ganiatâu;
- Cyfrannu'n weithredol at yr adolygiad rheolaidd o gynnydd y prentis;
- Dylai'r cyflogwr godi unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'r dysgu, yn y lle cyntaf, gyda darparwr y brentisiaeth. Os nad yw'n cael ateb boddhaol dylai fynegi'i bryderon wedyn wrth y darparwr sydd wedi derbyn y contract gan Lywodraeth Cymru. Mewn amgylchiadau anghyffredin lle nad yw hyn yn datrys y broblem, dylid cysylltu â Llywodraeth Cymru.

Prentisiaethau
Apprenticeships

OGL © Hawlfraint y Goron 2024